Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

# GAN

# LYWODRAETH CYMRU

**Teitl:** **Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd - Diweddariad**

**Dyddiad:** **16 Ebrill 2013**

**Gan:** **Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf ynghylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd, yn dilyn ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2012.

O dan arweiniad ei Gadeirydd, Elin Rhys, mae'r grŵp wedi dechrau archwilio'r cysylltiadau rhwng y Gymraeg a Datblygu Economaidd.

Ceir ymrwymiad yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru i archwilio'r holl gysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg. Rwyf wedi gofyn i'r Grŵp ystyried y ffordd orau o bennu a datblygu dulliau ymarferol o feithrin perthynas bositif rhwng y Gymraeg a datblygu economaidd.

Golyga cylch gorchwyl ehangach y Grŵp y bydd yn canolbwyntio ar ffactorau sy'n benodol ac yn uniongyrchol berthnasol i dwf economaidd, darparu swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg.

Gall y Grŵp fanteisio ar arbenigedd a phrofiad helaeth ac amrywiol ei aelodau, sy'n deillio o waith yng Nghymru a thramor, sy'n cynnwys busnes, entrepreneuriaeth a pholisi cyhoeddus. Gall y Grŵp hefyd fanteisio ar ei gysylltiadau â grwpiau cynghori eraill gan gynnwys Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, yr Adolygiad o Gyllid Sector Preifat i Fusnesau yng Nghymru a Grŵp y Dinas-ranbarthau.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp ym mis Ionawr yng Nghaerdydd a bu’n adolygu canlyniadau gwaith blaenorol, gan gynnwys gwaith gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yn Abertawe ym mis Chwefror a bu’r Grŵp yn adolygu’r dystiolaeth bresennol ynghyd â bylchau o ran y farchnad lafur a’r Gymraeg. Trafodwyd polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu economaidd yn ogystal, gan gynnwys effaith yr Ardaloedd Menter a Dinas-Ranbarthau a’r cyfleoedd a gynigir o safbwynt y Gymraeg.

Yng nghyfarfod nesaf y Grŵp yr wythnos hon bydd y Grŵp yn ystyried y dystiolaeth sydd wedi’i chasglu hyd yma ac yn sefydlu ffrydiau gwaith ar gyfer ystyried agweddau penodol ar y gwaith. Bydd yr aelodau yn arsylwi ar y ffrydiau gwaith hyn. Bydd hefyd yn ystyried y busnesau amrywiol y bydd yn casglu tystiolaeth ganddynt.

Yng nghyfarfodydd y dyfodol, bydd y Grŵp yn manteisio ar ei arbenigedd a’i ganfyddiadau ac yn gwahodd rhagor o randdeiliaid i gyflwyno eu sylwadau. Golyga hyn y gall y Grŵp fanteisio ar y sylfaen ehangaf bosibl o dystiolaeth er mwyn ddatblygu a chyflenwi strategaeth ar gyfer mynd ati ar y cyd i hybu’r Gymraeg a datblygu economaidd.

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gan yr Aelodau ynghylch gwaith y Grŵp a byddaf yn sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â’r Grŵp.